P2223-132

**PRIFYSGOL ABERTAWE**

**Y Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil**

1. *Adrodd*

Mae'r **Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil** yn adrodd i'r **Senedd.**
Fel un o ofynion Ymchwil ac Arloesi yn y DU (UKRI), caiff adroddiad blynyddol am gydymffurfiaeth â'r *Concordat to Support Research Integrity* ei ddarparu i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'i gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

2. *Amlder Cyfarfodydd*

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor. Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd arbennig. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio cyfleusterau e-bost neu ffôn/fideo-gynadledda fel y bo'n briodol i ymgymryd â'i fusnes yn effeithiol.

3. *Cyfansoddiad*

Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys:

- Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi) (Cadeirydd)
- Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Diwylliant Ymchwil)
- Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol (Ymchwil Ôl-raddedig)
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg
- Cadeirydd yr Is-bwyllgor Nawdd a Goruchwyliaeth
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yr Ysgol Seicoleg
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yr Ysgol Feddygaeth
- Cyd-gadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yr Ysgol Beirianneg
- Cadeirydd Is-bwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yr Ysgol Addysg
- Aelod Lleyg

4. *Presenoldeb*

*Gall y Cadeirydd, yn ôl ei ddoethineb, wahodd swyddogion eraill yn y Brifysgol, fel y bo'n briodol, i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd.*

Cyfarwyddwr Cysylltiol Ymchwil ac Arloesi
Rheolwr Llywodraethu Ymchwil
Swyddog Meinweoedd Dynol

Cynrychiolydd AWERB
Swyddog Gofal Anifeiliaid a Enwir (NACWO) (Gwyddoniaeth)
Pennaeth Iechyd a Diogelwch a Pharhad Busnes
Rheolwr y Dyniaethau Digidol a Data
Rheolwr Uned Dreialon Abertawe
Rheolwr Uniondeb Ymchwil (Clerc)

*5. Tymhorau Penodiad*

Dylai fod sylw dyladwy i ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn sicrhau amrywiaeth a chynwysoldeb. Gall y cyfansoddiad a'r aelodaeth newid gyda chytundeb y pwyllgor.

*6. Cworwm*

Bydd un traean o aelodaeth y Pwyllgor yn gworwm.

*7.* ***Diben***

Diben y Pwyllgor Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil yw goruchwylio cydymffurfiaeth y Brifysgol ag ymrwymiadau'r *'Concordat to Support Research Integrity'* a datblygu polisïau ar gyfer y Brifysgol yn unol â rheoliadau/deddfwriaeth allanol ym maes uniondeb, moeseg a llywodraethu ymchwil.

*8. Cylch Gorchwyl*

Dyletswyddau'r Pwyllgor fydd:

- Monitro cydymffurfiaeth y Brifysgol ag ymrwymiadau'r *'Concordat to Support Research Integrity'*.
- Bod yn gyfrifol am y fframwaith polisi ar 'Uniondeb, Moeseg a Llywodraethu Ymchwil' a'i roi ar waith.
- Gweithio gyda phwyllgorau'r Brifysgol sydd â chyfrifoldeb penodol am faterion moeseg a llywodraethu, gan gynnwys pwyllgorau Moeseg a Llywodraethu'r Cyfadrannau, y grŵp proses Lles Anifeiliaid ac Adolygiad Moesegol, yr Is-bwyllgor Nawdd a Goruchwyliaeth, yr Is-bwyllgor Meinweoedd Dynol ac unrhyw grwpiau goruchwyliaeth neu is-bwyllgorau eraill sy'n ymwneud â phwnc neu faes penodol.
- Monitro cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau moesegol mewnol a rheoliadau/deddfwriaeth allanol sy'n ymwneud â moeseg a llywodraethu ymchwil.
- Monitro, adolygu polisïau a gweithdrefnau ym maes uniondeb ymchwil: moeseg a llywodraethu a'u diweddaru lle bo'n briodol.
- Rhoi cymorth ac arweiniad i'r Cyfadrannau a'r Ysgolion i sicrhau eu bod yn datblygu mecanweithiau a strwythurau priodol at ddiben rheoli moeseg a llywodraethu ymchwil.
- Sicrhau bod moeseg a llywodraethu ymchwil yn eitem sefydlog ar agendâu pwyllgorau ymchwil y Cyfadrannau.
- Sicrhau bod risgiau ymchwil yn cael eu rheoli'n briodol a bod risgiau'n cael eu lliniaru at ddibenion parhad busnes a chynllunio ar gyfer argyfwng.

- Hyrwyddo arfer gorau ac annog cysondeb mewn materion sy'n ymwneud ag uniondeb, moeseg a llywodraethu ledled y Brifysgol, drwy hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth.
- Sicrhau goruchwyliaeth o ofynion nawdd, archwiliadau ac arolygiadau gan gyrff allanol (e.e. MHRA, HTA, UKRI, gwasanaethau archwilio mewnol) a chydymffurfiaeth â'r rhain.
- Diweddaru a lledaenu'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil â'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r prosesau sy'n ymwneud â llywodraethu ymchwil a chymeradwyaeth foesegol. a
- Chymeradwyo ac adolygu'n gyfnodol fframweithiau moeseg a llywodraethu ymchwil sy'n berthnasol i bynciau penodol a lunnir gan bwyllgorau Moeseg a Llywodraethu Ymchwil y Cyfadrannau

*9. Is-bwyllgorau/grwpiau a'u cylch gorchwyl*

- Is-bwyllgor Nawdd a Goruchwyliaeth

*10. Arall*

Ystyried unrhyw faterion eraill a gyfeirir at sylw'r Pwyllgor gan y

- Pwyllgor Effaith Ymchwil ac Arloesi
- Is-bwyllgor Nawdd a Goruchwyliaeth
- Bwrdd Meinweoedd Dynol.

*11. Adolygiad Effeithiolrwydd*

(i) Adolygu'n flynyddol effeithiolrwydd y Pwyllgor yn erbyn ei gylch gorchwyl a chynnig argymhellion ar gyfer newid i'r Senedd.

*12. Pwerau*

(i) Gweithredu ag awdurdod a ddirprwywyd gan y Senedd.
(ii) Sefydlu'r fath grwpiau tasg a gorffen sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes y Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| *Cyflwynwyd i'r Senedd i'w gymeradwyo:* | *Mehefin 2022* |
| *Cymeradwywyd gan y Senedd:* | *Mehefin 2022* |
| *Dyddiad Adolygu Nesaf:* | *Mehefin 2023* |